**Adroddiad yn dilyn monitro**
**Lefel y dilyniant: mesurau arbennig**

**Ysgol Llannon**

**Llannon**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 5HX**

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Llannon wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Ebrill 2016

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Cryfhau medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion fel eu bod yn gallu eu defnyddio'n hyderus ar draws y cwricwlwm

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd yn gyson ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys profiadau dysgu a thasgau gwerthfawr er mwyn datblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion. Mae'r athrawon yn manteisio ar gefnogaeth yr awdurdod lleol ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws yr ysgol trwy gydweithio'n agos gydag athrawes arbenigol. O ganlyniad, mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn hyderus wrth gyfathrebu â'u cyfoedion ac oedolion.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medru darllen yn effeithiol. Mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn bwyllog ac yn defnyddio strategaethau ffoneg yn fedrus i adeiladu geiriau. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas o gynnwys eu llyfrau darllen ac maent yn trafod eu nodweddion yn briodol. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau darllen ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ymchwilio i dai crwn yn ystod Oes y Celtiaid. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio strategaethau addas i ddarllen testunau anghyfarwydd ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn hyderus. Mae llawer yn darllen ar goedd yn gymharol rugl a chywir. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion sy'n fwy abl yn darllen yn glir gan amrywio goslef y llais yn effeithiol er mwyn dal sylw'r darllenydd.

Erbyn hyn, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau byr trwy ddilyn patrymau cyfarwydd gan ddefnyddio priflythrennau ac atalnodi syml. Maent yn trefnu darnau o waith yn gywir ac yn eu haddasu'n briodol i wahanol bwrpas a chynulleidfa. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn amrywio'u brawddegau'n llwyddiannus ac yn defnyddio berfau cryno yn naturiol yn eu gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu addas gan ddilyn dull ysgrifennu sy'n briodol i'r testun, er enghraifft, wrth ysgrifennu portreadau o awduron Cymreig. Maent yn sillafu llawer o eiriau cyfarwydd a mwy cymhleth yn lled gywir ac yn atalnodi'n briodol a defnyddio paragraffau yn hyderus i drefnu eu testun. Mae ychydig o ddisgyblion sy'n fwy abl yn defnyddio'u medrau'n llwyddiannus i ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm gan ddefnyddio ystod addas o ansoddeiriau a chymariaethau'n gywir i gyfoethogi eu gwaith. Fodd bynnag, er bod gwelliant amlwg yng ngwaith ysgrifenedig llawer o ddisgyblion, nid yw gallu ychydig i ysgrifennu'n annibynnol wedi datblygu'n llawn.

Mae athrawon yn darparu mwy o gyfleoedd addas i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn briodol i ddatrys problemau bywyd go iawn gan gynnwys rhoi newid allan o bunt a datrys problemau yn ymwneud â chynhwysedd. Yn gyffredinol, mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau rhifedd yn briodol wrth ddatrys problemau pob dydd. Maent yn casglu, cofnodi a dehongli data yn gadarn, er enghraifft wrth greu graff i ddangos canlyniadau ymholiad gwyddonol i effaith ymarfer corff ar guriad y galon. Erbyn hyn, mae athrawon yn dechrau cynllunio'n fwy pwrpasol a systematig er mwyn i ddisgyblion atgyfnerthu'r dysgu o wersi mathemateg ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd wrth drefnu ymweliad diweddar i safle hanesyddol.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod cynllunio athrawon yn diwallu'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r athrawon wedi addasu cynlluniau cwricwlaidd yr ysgol yn llwyddiannus er mwyn darparu ystod eang o brofiadau dysgu i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion. Mae'r cynlluniau hyn yn bodloni egwyddorion y cyfnod sylfaen, gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer cyfnod allweddol 2 a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae themâu amrywiol yn ysgogi diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus ac yn sicrhau eu bod yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gynlluniau gwaith yr awdurdod lleol ar gyfer iaith, mathemateg, gwyddoniaeth ac addysg grefyddol er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad yn y pynciau hyn ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol gydag athrawes arbenigol yr awdurdod lleol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau ymchwiliol gwyddonol y disgyblion yn nodwedd gref o gwricwlwm yr ysgol.

Mae'r ymweliadau addysgol a'r amrywiaeth dda o ymwelwyr yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft ymweld â Phrifysgol Aberystwyth yn ystod yr wythnos wyddoniaeth genedlaethol. Atgyfnerthir hyn yn effeithiol trwy gydweithio gydag arbenigwyr o'r brifysgol sy'n cynnal gweithdai codio i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae perfformiadau ar safle'r ysgol gan gwmnïau theatr mewn addysg yn cyfoethogi iaith y disgyblion a'u Cymreictod yn llwyddiannus.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu er mwyn sicrhau her briodol i ddisgyblion**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae athrawon wedi sefydlu amgylchedd dysgu effeithiol ac ysgogol o fewn eu dosbarthiadau sy'n annog disgyblion i ymgymryd yn llawn yn eu dysgu. Maent yn cynllunio profiadau dysgu diddorol a gwerthfawr sy'n diwallu anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cyflwyno gwersi a thasgau'n glir ac yn effeithiol gan sicrhau cydbwysedd priodol rhwng mewnbwn yr athro a'r disgybl. Maent yn gwneud cysylltiadau dilys gyda dysgu blaenorol sy'n sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar eu medrau a'u dealltwriaeth yn gadarn.

Erbyn hyn, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Trwy sefydlu gweithdrefnau cadarn o fewn y dosbarthiadau, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn medru ymchwilio drostynt eu hunain ac ymgymryd yn llawn yn eu dysgu, fel er enghraifft, pwyso cynhwysion yn briodol i wneud bara.

Mae staff yn modelu iaith safonol yn llwyddiannus sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau iaith rhan fwyaf y disgyblion. Maent yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth disgyblion o faterion penodol a datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Mae perthynas waith cadarn yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion ar draws yr ysgol sy'n sicrhau eu bod yn ymgymryd yn llawn yn eu dysgu. Maent yn rheoli ymddygiad mewn ffordd sensitif a chadarn ac yn defnyddio cynorthwywyr yn fedrus i gefnogi hyn.

**Argymhelliad 4: Gwella prosesau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi diwygio'r polisi a'r trefniadau asesu ac olrhain cynnydd ac mae'r athrawon yn gweithredu'r gofynion yn gyson ac effeithiol. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu systemau electronig sy'n cael eu defnyddio'n gynyddol effeithiol wrth ddehongli asesiadau ac olrhain cynnydd disgyblion. Maent yn defnyddio gwybodaeth yn fanwl i dargedu ymyraethau i ddisgyblion unigol, ac yn darparu lefel briodol o her iddynt yn y gweithgareddau dysgu. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill yn y clwstwr i gymedroli gwaith. O ganlyniad, mae dealltwriaeth athrawon o ofynion deilliannau a lefelau yn datblygu'n gadarn.

Yn dilyn hyfforddiant perthnasol, mae'r ysgol wedi adolygu ei gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu'n briodol. Mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant gyda disgyblion yn gyson. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn eu trafod yn hyderus, ac maent yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn cyflawni gofynion y dasg yn effeithiol. Mae disgyblion yn derbyn cyfleoedd addas i hunanasesu ac asesu gwaith cymheiriaid. Mae athrawon yn cynnig adborth effeithiol i ddisgyblion, gan nodi sylwadau cadarnhaol ac agweddau sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion ystyried ac ymateb i'r adborth er mwyn datblygu eu gwaith ymhellach. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion bob amser yn chwarae rôl lawn wrth ddatblygu a gwella eu gwaith.

**Argymhelliad 5: Cryfhau gweithdrefnau arweinyddiaeth er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol clir gyda ffocws ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae arweinyddiaeth a strwythur staffio'r ysgol bellach yn sefydlog. Mae gan yr ysgol bennaeth parhaol ynghyd ag athrawon profiadol yn y ddau ddosbarth. Mae gan bob aelod o staff ddisgrifiad swydd sy'n amlinellu eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir. O fewn cyfnod byr, mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi llwyddo i adeiladu partneriaethau gwerthfawr gyda llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned leol.

Gyda chefnogaeth swyddogion yr awdurdod addysg, mae’r pennaeth wedi llunio cynllun ôl arolwg defnyddiol i fynd i’r afael ag argymhellion yr arolygiad craidd. Yn ogystal, mae wedi llunio amserlen fanwl sy’n amlinellu gweithgareddau a phrosesau ar gyfer gwella ansawdd, sy’n canolbwyntio’n glir ar fynd i’r afael â’r gwaith o wella’r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd y gweithgareddau hyn yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ganddynt gwell ymwybyddiaeth o effaith y gwaith ar ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

Mae’r ysgol wedi sefydlu rhaglen berthnasol o weithgareddau hunanarfarnu sy’n seiliedig ar graffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith, ac arsylwi ar wersi. Mae’r gweithgareddau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar flaenoriaethau gwella’r ysgol, fel cysoni dulliau asesu ar gyfer dysgu, codi safonau disgyblion a chryfhau’r cynlluniau cwricwlaidd. Yn ddiweddar, mae adroddiadau monitro'r pennaeth a’r llywodraethwyr, yn fwy dadansoddol ac yn adnabod cryfderau ynghyd ag agweddau penodol ar gyfer gwelliant. Fodd bynnag, rhywbeth diweddar yw hyn ac mae’n rhy gynnar i fesur ei effaith yn llawn. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd priodol o ganllawiau a fframweithiau’r awdurdod lleol i fonitro safon yr addysgu. Mae’r sylwadau ar ddiwedd y broses arsylwi gwersi yn rhoi cyfeiriad clir i athrawon o’u cryfderau a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae arweinwyr yn defnyddio’r wybodaeth yn effeithiol i sicrhau cysondeb o ran safon yr addysgu.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu cyfredol yn adnabod y cryfderau a’r meysydd gwella yn glir. Mae hyn yn cyd-fynd â’r safonau a welwyd yn y dosbarthiadau ac yn llyfrau’r disgyblion. Mae’r gweithdrefnau hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i arweinwyr ac yn eu galluogi i weithredu’n fwy strategol.

**Argymhelliad 6: Datblygu rôl y llywodraethwyr yng ngweithdrefnau hunanarfarnu’r ysgol**

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Bellach, mae gan bob llywodraethwr gyfrifoldebau penodol yn ogystal â chyswllt clir ag argymhellion yn y cynllun ôl arolygiad. O ganlyniad, maent yn cyfrannu’n fwy effeithiol tuag at y gwaith o adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella.

Ers yr arolygiad craidd, mae’r llywodraethwyr wedi derbyn hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys dehongli data ac asesu ar gyfer dysgu. Mae hyn wedi cryfhau eu dealltwriaeth a’u gallu i hunanarfarnu’r ddarpariaeth yn wybodus ac i gymryd rôl fwy strategol yn natblygiad yr ysgol. Trwy arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion, mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gyfredol am safonau’r ysgol. Maent yn cyfrannu sylwadau’n effeithiol mewn ystod o adroddiadau monitro arfarnol. O ganlyniad, mae’r prosesau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

Mae gan y llywodraethwyr adnabyddiaeth glir o flaenoriaethau’r ysgol. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o arbenigedd aelodau'r corff llywodraethol a thrwy hyfforddiant perthnasol, a chysylltu â llywodraethwyr mewn ysgolion eraill, mae eu rôl fel aelodau’r corff llywodraethol yn datblygu’n dda.

Mae'r llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth drylwyr gan y pennaeth a'r awdurdod lleol am gynnydd tuag at y targedau yn y cynllun ôl arolygiad. Bellach maent yn arfarnu cynnydd yn erbyn y cynllun gwella ôl-arolwg llawer yn fwy bwriadus. O ganlyniad, mae gallu'r llywodraethwyr i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn datblygu'n effeithiol. Er mwyn cryfhau eu rôl yn y broses gwelliant ymhellach, mae angen i'r llywodraethwyr barhau i fonitro gweithdrefnau a roddir ar waith i'w galluogi i herio'r ysgol yn hyderus.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.